Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10 Dulliau o roi arian sy'n effeithiol o ran treth

Drwy ddefnyddio dulliau o roi arian sy'n effeithiol o ran treth, gall elusennau gael y budd mwyaf o'u hincwm. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn rhoi arian i elusen ar ryw adeg ond ni fydd pob un ohonynt yn gwneud y gorau o'r gostyngiad hael yn y dreth sydd ar gael.

Rhodd Cymorth

Mae Rhodd Cymorth yn rhoi mwy na £15,000,000 y flwyddyn i elusennau yng Nghymru ar ffurf incwm ychwanegol di-amod.

Mae Cymorth Rhodd yn gweithio drwy alluogi elusennau i gymryd rhodd (sef yr arian y mae'r rhoddwr eisoes wedi talu treth arno), ac yna adhawlio'r dreth ar y 'gros' sy'n cyfateb i'r rhodd (ei werth cyn y tynnwyd y dreth) ar y gyfradd sylfaenol. Bydd hyn yn 20 y cant o 6 Ebrill 2008.

Yn ymarferol, golyga hyn y gall yr elusen hawlio 25 ceiniog ychwanegol gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am bob punt a roddir i elusen drwy ddefnyddio Cymorth Rhodd. Hefyd, bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn talu 3 ceiniog yn ychwanegol i'r elusen yn awtomatig am bob punt o Gymorth Rhodd y bydd yn ei gael rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2011; darparwyd y rhyddhad trosiannol hwn gan y Llywodraeth er mwyn galluogi elusennau i addasu i'r gwymp yng nghyfradd sylfaenol treth (o 22 y cant i 20 y cant) o 6 Ebrill 2008. Golyga hyn y bydd yr elusen yn parhau i gael 28 ceiniog am bob punt a roddir drwy Cymorth Rhodd.
Gall Cymorth Rhodd fod yn berthnasol i roddion unwaith ac-am-byth neu i gyfres o roddion rheolaidd.

Ar ôl cofrestru gyda Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i adennill y dreth, mae'r gwaith gweinyddol yn syml. Bydd rhoddwyr yn rhoi tystiolaeth i ddangos y byddent yn hoffi i'r elusen adennill y gostyngiad yn y dreth ar eu rhoddion a bydd yr elusen yn hawlio'r gostyngiad yn y dreth ar ran rhoddwyr sy'n talu treth incwm yn y DU.

Rhoddion gan fusnesau

Mae cefnogaeth gorfforaethol y tu hwnt i gyrraedd llawer o elusennau bach neu ranbarthol er bod cyfleoedd buddiol i'w cael drwy greu cysylltiadau ymarferol â busnesau lleol a chyflogwyr eraill yn yr ardal.
Gall cwmnïau sicrhau gostyngiad yn y dreth mewn sawl modd wrth roi arian i elusen.

Yn syml, gellir tynnu gwerth y rhodd o elw blynyddol y cwmni, fel y bydd yn talu llai o dreth gorfforaeth y flwyddyn honno. Gellir ystyried gwerth y rhodd fel pe bai ar ffurf arian, gwerth yr eitemau ar y farchnad neu hyd yn oed amser staff.

Ceir amryw o fanteision ac mae amryw o ddulliau o roi hefyd gan gynnwys: rhoddion ariannol, nawdd, cyfranddaliadau, deunyddiau, cyfarpar, rhoddion o fath arall fel gwasanaethau, cyngor ac amser staff, secondio a chyfleoedd i wirfoddoli.

Rhoi drwy'r gyflogres

Diffiniad: 'dull o gyfrannu i elusen gan weithwyr drwy gyflogres eu cyflogwr'.

Ceir rhoddion o tua £90 miliwn y flwyddyn drwy'r dull hwn yn y DU, ac mae'r sector yn elwa'n fawr o'r ffynhonnell incwm hon sy'n rheolaidd, yn ddibynadwy ac yn ddi-amod. Mae'n hawdd ei drefnu a bydd y rhoddion yn aml yn parhau am flynyddoedd lawer neu hyd nes bydd cyflogaeth yr unigolyn yn dod i ben. Y rhodd misol cyfartalog yw £8.

Mae ymrwymiad i roi o'r math hwn yn cynnig anogaeth wirioneddol i roddwyr gan y byddant yn cael gostyngiad yn y dreth ar unwaith ar eu rhoddion misol.

Mae codi arian drwy'r gyflogres yn galw am greu cysylltiadau â chyflogwyr lleol er mwyn hyrwyddo'r achos da ymysg eu gweithwyr. Bydd y dull hwn o godi arian yn arwain yn aml at sicrhau cefnogwyr newydd a llawer o fanteision anuniongyrchol eraill.

Rhoi drwy gymynrodd

Cymynrodd yn ewyllys y rhoddwr yw un o'r dulliau mwy traddodiadol o roi i elusen ac mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm bwysig iawn. Mae llawer o elusennau a mudiadau crefyddol yn ddibynnol arnynt.

Mae cymynroddion i elusennau'n lleihau cyfanswm y dreth etifeddiant sy'n ddyledus o'r ystad. Bydd cymynroddion yn cael eu gadael drwy ewyllys y rhoddwr neu'n syml drwy roi datganiad i'r ysgutorion gyda chyfarwyddiadau ynghylch yr elusen sydd i dderbyn y gymynrodd.

Rhoi Cyfranddaliadau

Maint y rhoddion o gyfranddaliadau ar gyfartaledd yw £7,000 ac mae mwy na 11 miliwn o bobl yn y DU yn berchen ar wahanol niferoedd o gyfranddaliadau. Mae'n amlwg ei bod yn werth ystyried codi arian drwy dderbyn rhoddion o gyfranddaliadau.

Y brif anogaeth i roi cyfranddaliadau yw y gall gostio'n llai i roddwyr roi cyfranddaliadau nag y mae iddynt roi arian. Gall y rhoddwr gael gostyngiad yn y dreth hefyd er budd personol.

Mae hawl gan roddwyr sy'n rhoi cyfranddaliadau i elusen i gael gostyngiad yn y dreth sy'n cyfateb i werth y cyfranddaliadau ar y farchnad ynghyd ag unrhyw gostau cysylltiedig fel ffioedd broceriaid. Gan fod y gyfradd uwch ar gyfer treth incwm a threth ar enillion cyfalaf yn 40% ar hyn o bryd, gall fod yn swm sylweddol o arian.

Camau i'w hystyried wrth roi cyfranddaliadau:

Rhaid i roddwyr gymryd rhai camau syml wrth roi cyfranddaliadau:

1. Cysylltu â'r elusen y maent yn dymuno rhoi'r cyfranddaliadau iddi.
2. Gofyn am Ffurflen Trosglwyddo Stoc gan y Cofrestrydd Cyfranddaliadau sydd wedi'i enwi ar y dystysgrif.

3. Trosglwyddo'r Dystysgrif
   Gyfranddaliadau i'r elusen.
4. Hawlio'r gostyngiad priodol yn y dreth
   drwy ddefnyddio Ffurflen Dreth.

Os bydd y rhoddwr mewn unrhyw amheuaeth ynghylch y broses o roi cyfranddaliadau i elusen, y peth gorau fydd iddo gysylltu â chynghorydd proffesiynol, fel Cynghorydd Ariannol Annibynnol, cyfrifydd neu dwrnai.

Mwy o wybodaeth

Rhoi trwy'r Gyflogres Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk/givingwales

Charities Aid Foundation
www.cafonline.org

Y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr
Ffôn: 0870 333 0123
www.charity-commission.gov.uk

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
www.hmrc.gov.uk

Sefydliad Codi Arian
www.tax-effectivegiving.org.uk.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:20/06/2008

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk